O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 1145 (Cy. 138)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Queensferry, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Ebrill 2012* |
| *Yn dod i rym* | *27 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494/A550) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd perygl tebygol i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Queensferry, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd*" ("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1389 o fetrau i'r gogledd o bwynt canol Cyfnewidfa Queensferry hyd at bwynt 325 o fetrau i'r gogledd o bwynt canol y cyfryw Gyfnewidfa.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb yrru na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Ebrill 2012

*G R Morgan*
**G R MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.